

Y Llwydiaid a'r Puwiaid - Cartrefi Cymru gan Bob Owen, Croesor

Teulu lled enwog a phoblogaidd ar un cyfnod a ddaeth i gysylltiad â theulu Rhiwgoch oedd Garnos. Priododd un John Garnos a aned yn 1704, Prothonotary Sir Gaernarfon, y ceir darlun olew ohono yn ystafell yr Uchel Reithiwr yng Nghaernafon, â Jane, merch Griffith Roberts, Rhiwgoch, a ddisgynnai o'r Llwydiaid. Yr oedd y John Garnos uchod yn fab i Richard Garnos, Nantlle, a fu farw yb 1742 a'i wraig Catrin, merch Morris Anwyl, Cae Dafydd, Nantmor, a'i thad oedd Richard Garnos, o Garnos Hall, Sir Benfro, gwraig yr hwn oedd Catrin merch John Vaughan o Gorsygedol, a thrwy wraig John Vaughan, ddisgynnai o Humffrediaid, Pant Du, Llanllyfni ac o deuluoedd Cefn Amlwch, Bodfel, Castellmarch, etc. Bu llawer o lyfrau cyfraith hen a phrin mewn llofft, yng Nghae Dafydd am ugeiniau o flynyddoedd a daeth degau ohonynt yn eiddo Carneddog a aethant ar led pan symudodd ef a'i wraig i Loegr i fyw gyda'r mab yn 1945.

Un mab i John Garnos, Rhiwgoch a Jane ei wraig oedd John Vaughan Garnos, Rheithor Llanddeilonen, a fu farw yn 1783 ac a gladdwyd ym mynwent y Llan, Trawsfynydd. Ni bu iddo blant.

Colled fawr ar ôl John Fychan Garnos

Yn y *North Wales Gazette*, Bangor am 11 Mai 1815, ceir cywydd marwnad i'w dad ac iddo yntau gan Evan James o Llanfachreth, Merionnydd, a rhydd dystiolaeth uchel iddynt fel cymeriad gonest. Gŵr graddedig o M.A. Rhydychen oedd John Fychan Garnos ac roedd yn Ustus Heddwch yn Arfon. Yr oedd hiraeth yn drwm yn Nhrawsfynydd ar eu holau oherwydd yr oeddynt yn nodedig am eu haelioni. Ceir un o lyfrau llawysgrif Dafydd Sion James o Benrhyndeudraeth, sydd yng nghadw yn Llyfrgell Coleg y Brifysgol Bangor, cerdd o'i waith a ysgrifennwyd Mai 1 1767 yn gofyn am gadach i Mrs Jane Garnos o'r Rhiwgoch tros rhyw Elizabeth Parry.

Elena Puw Morgan yn ddisgynydd

Aeth Rhiwgoch yn gartref i'r Puwiaid wedyn am genedlaethau, rhai ohonynt yn gymeriadau hynod o fonheddig, a cheir llawer o hanesion diddorol am rai ohonynt ar lafar hyd heddiw yn ardal Trawsfynydd. Y rhai



Elena Puw Morgan

cyntaf ohonynt yn *Gentlemen Farmers* a cheir cistiau costfawr i lawer ohonynt ym mynwent y Llan Trawsfynydd. Credaf fod Elena Puw Morgan o Gorwen, Mary Pugh Rowlands Tyddyn Bach, Meirion Pugh a Morris Pugh Jones, Tom Pugh Williams yn ddisgynyddion unionsyth o'r Puwiaid a'r Llwydiaid.

Dylaswn fod wedi mynegi fod yr adeilad fel y mae heddiw yn cynnwys dwy beil o siâp T gyda phedair congol a ffurfiwyd gan yr adeiladur allanol ac ar yr ochr ogledd-ddwyreimiol ceir y gatws - adeilad plaen gyda charreg tros y porth yn dwyn arfau'r hen deulu. *Sequere insutiam et scientiam vitam*. Tu mewn i'r Cwrt ar y dde, ceir amryw resi o silffoedd cerrig fel cychod i'r gwenyn.

Y tŷ wedi cael ei newid cymaint

Y prif adran o'r ty a eir i mewn iddo drwy'r *four centred doorway* gyda labret i 'gynllun amrwd' ac fel hyn o ddisgrifiad ymbellach gan ysgrifennydd y Gymdeithas Hynafiaethol yn 1916. *In the spandrils on the left the cipher R.LL on the right over the centre of the labret are 1610 family Coat of Arms (The Lloyds-Lwydiaid)* Y mae'r lle erbyn hyn wedi cael ei gyfnwied cymaint gan awdurdodau'r gwrsyll milwrol fel mae wedi llwyr gollu ei swynion gwreiddiol.

Amgrymais fod John Roberts, y Merthyr Pabyddol yn fab i Robert un o feibion Ellis Llwyd o Rhiwgoch. Felly, roedd y Merthyr enwog yn gefnder i Robert Lloyd yr AS 1586-7.

Bu amryw yn ceisio ei briodoli fel mab i John Roberts, mab Lewis Anwyl, y cyntaf o Parc, Llanfrothen, ond cyfeiliornad dybryd yw. Credir iddo gael ei eni yn Rhiw Goch neu yn Tyddyn Mawr neu Gelligoch.

Cofiant llawn i John Roberts

Ceir llawer o hanes John Roberts mewn cofnodolion Pabyddol ac yn 1897, cyhoeddwyd cofiant llawn iddo o dan y teitl a ganlyn *A Benedictine Martyr in England being the Life and Times of the Venerable Servant of God DOM John Roberts O.S.B.M.A.* Cynnwys y llyfr hwn 317 o dudalennau yn y Gymraeg hefyd.

Cyhoeddwyd hanes ei fywyd yn bamffledyn bychan yn y ganrif ddiweddar. Ceir hanes diddorol a manwl ynghyd â ffaesimili o'i lythyr yn y *Welsh Catholics on the Continent* gan William Llywelyn Williams yn y *Cymrodorion Society Transaction Session 1701-2* hefyd yn y *Catholic Martyrs of Wales 1535-1680* gan y Barnwr T.P.Ellis a chan yr un awdur yn ei lyfr ar *The Welsh Benedictines of the Terror, Dreams and Memories* tudalen 43, 46, 54 a 76. Rhydd pob un o'r uchod deyrnged uchel iddo fel arloesydd diwygiad Urdd S. Benet ym Mhrydain a'i gyn ferthyr hefyd, ond cymeriad sâl a phwdr oedd yng ngolwg Lewis Owen yn ei *Running register 1626*, sef y gŵr hwn a fu yn Babydd ei hun, ond a drodd yn ddiweddarach yn elyn anghymodlon i'r Pabyddion ac a aeth mor bell â mynd yn ysbwydd tros lywodraeth Lloegr.

Teithiodd y Cyfandir

Ganed John Roberts yn y flwyddyn 1576. Dysgwyd ef fel Protestant yng Ngholeg St. Ioan Rhydychen yn 1596 ac yna am ychydig fisoedd bu yn astudio'r gyfraith yn Furnival's



Dal yr Hybarch John Roberts, O.S.B., yn ei wisgoedd (allan o 'Y Merthyrion Cymreig').

Inn. Oddi yno, teithiodd y cyfandir, ac ym Mharis troes yn Babydd a derbyniwyd ef i Goleg y Jesiwiad St. Alban, Valladolid, Sbaen, yn 1598. Ar ôl blwyddyn yno, ymunodd ag Urdd S. Benet gan fabwysiadu'r enw *Fra Juan de Mercinis*. Bu am gwrw pellach o astudiaeth yn Salamina. Ordeiniwyd ef yn offeiriad yn 1602 ac ym mis Ebrill 1603 daeth i Loegr fel cenhadwr.

Bu bedair gwaith yng ngafael yr awdurdodau. Unwaith yn mis Tachwedd 1606 ac yn ystod helynt 'Brad y Powdwr Gwn'. Wedi tymor byr o garchar dedfrydwyd ef i alltudiaeth. Daliwyd ef yn Llundain am y 5ed tro ym 1610 a chafwyd ef yn euog o uchelfrad a dienyddiwyd ef i farwolaeth drwy dull creulon ar 10 Rhagfyr 1610.

Yr oedd hefyd yn un o brif sefydlwyr Coleg St. Gregory, Douai, 1606-7 a chodwyd ef yn brior cyntaf y coleg hwnnw.

